## ATODLEN 6

Rheoliad 33(1)

### Y MATERION SYDD I'W MONITRO A'U HADOLYGU GAN Y PERSON COFRESTREDIG

**1.** Mewn perthynas â phob plentyn sy'n cael ei letya yn y cartref plant, cydymffurfedd â chynllun yr awdurdod lleoli ar gyfer gofal y plentyn (os yw'n gymwys) a'r cynllun lleoliad.

**2.** Adneuo a rhoi arian a phethau gwerthfawr eraill a roddwyd i mewn er mwyn eu cadw'n ddiogel.

**3.** Bwydlenni dyddiol.

**4.** Pob damwain a niwed sy'n cael eu dioddef yn y cartref neu gan blant sy'n cael eu lletya yno.

**5.** Unrhyw salwch a gaiff plant sy'n cael eu lletya yn y cartref.

**6.** Cwynion mewn perthynas â phlant sy'n cael eu lletya yn y cartref a'u canlyniadau.

**7.** Unrhyw honiadau neu amheuon o gamdriniaeth mewn perthynas â phlant sy'n cael eu lletya yn y cartref a chanlyniad unrhyw ymchwiliad.

**8.** Cofnodion recriwtio staff a chofnodion ynghylch cynnal y gwiriadau angenrheidiol ar gyfer gweithwyr newydd yn y cartref.

**9.** Ymwelwyr â'r cartref ac â phlant yn y cartref.

**10.** Hysbysiadau o'r digwyddiadau a restrir yn Atodlen 5.

**11.** Unrhyw absenoldeb diawdurdod o'r cartref gan blentyn sy'n cael ei letya yno.

**12.** Defnyddio mesurau rheoli, atal a disgyblu mewn perthynas â phlant sy'n cael eu lletya yn y cartref.

**13.** Asesiadau risg at ddibenion iechyd a diogelwch a'r camau a gymerir wedyn.

**14.** Meddyginiaethau, triniaeth feddygol a chymorth cyntaf a roddir i unrhyw blentyn sy'n cael ei letya yn y cartref.

**15.** Yn achos ysgol gymwys, safonau'r ddarpariaeth addysgol.

**16.** Rosteri dyletswyddau personau sy'n gweithio yn y cartref, a'r rosteri a weithiwyd mewn gwirionedd.

**17.** Lòg dyddiol y cartref.

**18.** Ymarferion tân a phrofion larymau a phrofion offer tân.

**19.** Cofnodion gwerthusiadau cyflogeion.

**20.** Cofnodion cyfarfodydd staff.